Teitl: **Gweithiwr Ieuenctid Datgysylltiedig x5**

Lleoliad: **Lleoliadau amrywiol ym Mlaenau Gwent**

Cyfarwyddiaeth: **Addysg – Gwasanaeth Ieuenctid**

Cyf / Rhif y Swydd:

Cyflog: **Gradd 5 (£27,334 – £30,296) pro rata**

Oriau: **9 awr yr wythnos (3 noson) o waith gyda'r nos**

Contract: **Contract cyfnod penodol tan 31 Mawrth 2025**

Crynodeb o'r Swydd

Mae'r swydd hon yn cynnig 9 awr yr wythnos (3 noson) o waith gyda'r nos am gyfnod o 6 mis i ddechrau

Yn y rôl hon, byddwch yn rhan o dîm penodedig sy'n gweithredu tair noson yr wythnos ar draws gwahanol leoliadau ym mwrdeistref Blaenau Gwent. Eich prif gyfrifoldeb fydd darparu cymorth gwaith ieuenctid datgysylltiedig i unigolion ifanc 11-25 oed. Mae hyn yn golygu meithrin perthnasoedd cryf â nhw, cael dealltwriaeth ddyfnach o'u hanghenion unigryw, a'u cysylltu â lleoliadau a gwasanaethau ieuenctid eraill lle bo angen. Byddwch hefyd yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu gwybodaeth werthfawr, cefnogaeth, a chyfleoedd ar gyfer twf personol iddynt. Yn y pen draw, bydd eich gwaith yn grymuso'r bobl ifanc hyn i gyfrannu'n weithredol at wella cydlyniant cymunedol yn yr ardal.

Hysbyseb Lawn

Mae cyfle cyffrous a gwerthfawr wedi agor i chwe unigolyn brwdfrydig ymuno â thîm datgysylltiedig sydd newydd ei sefydlu o fewn Gwasanaeth Ieuenctid Blaenau Gwent. Bydd y tîm yn gweithredu mewn parau ac yn helpu i ddarparu ystod o weithgareddau, gwaith mentora a chymorth, gan ddarparu gwybodaeth ac arweiniad i bobl ifanc trwy fodel gwaith ieuenctid datgysylltiedig.

Fel gweithiwr ieuenctid datgysylltiedig, byddwch yn gweithio fel rhan o dîm bach o weithwyr ieuenctid, yn gweithio gyda phobl ifanc ar y strydoedd yn eu tiriogaeth eu hun. Bydd y gweithiwr ieuenctid datgysylltiedig hefyd yn gyfrifol am gynllunio a chyflwyno rhaglen sy'n cael ei harwain a'i chefnogi gan y bobl ifanc.

Byddwch yn datblygu cysylltiadau cryf gyda phartneriaid a'r gymuned gyfagos i helpu i ddiwallu anghenion y bobl ifanc a'r gymuned ac i ddarparu rhaglen waith gyfannol, wrth fynd i'r afael hefyd â rhwystrau y gall rhai pobl ifanc eu hwynebu.

Wedi'ch lleoli o bell fel gweithiwr datgysylltiedig, bydd gennych hefyd brofiad o weithio wyneb yn wyneb â phobl ifanc mewn amrywiaeth o leoliadau. Mae peth profiad blaenorol o weithio gyda phobl ifanc trwy fodel gwaith datgysylltiedig yn hanfodol.

Mae sgiliau gofynnol yn cynnwys:

- sgiliau rhyngbersonol / cyfathrebu rhagorol gyda'r gallu i uniaethu â phobl ifanc a thanio eu brwdfrydedd
- y gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm amlasiantaeth
- y gallu i asesu anghenion pobl ifanc a datblygu rhaglen waith briodol, a lefel uchel o wydnwch personol, gan gynnwys y gallu i reoli gwrthdaro a delio â sefyllfaoedd llawn straen
- y gallu i ddangos effaith trwy fonitro a chofnodi data seiliedig ar waith trwy ddefnyddio llwyfannau digidol
- y gallu i yrru'r fan gwaith ieuenctid (mae angen trwydded yrru lawn y DU)

Cynhelir sgrinio cyn-gyflogaeth trylwyr yn ystod y broses recriwtio.

Bydd gofyn i ddeiliad y swydd gwblhau cais am ddatgeliad cofnodion troseddol a bod wedi'i gofrestru i weithio ym maes gwaith ieuenctid gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA).

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg

Ar gyfer gwybodaeth am ail-gysylltu cyn-weithwyr, gweler Polisi Cyflog y Cyngor

Dyddiad Cau: 03.10.2024

Dyddiad y Cyfweliad: 10.10.2024